**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Ebrill 2024 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Dan Evans (Cadeirydd), Lynford Thomas, Johnny Davies, Gerwyn Owen, Lyn Williams, Haf Hughes, Glyn Davies, Hywel Ifans, Melinda Williams

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng**.** Alan Henson, Harry Williams. Y Cyng. Sir Ceris Jones.

2. **PERSONOL**
   Llongyfarchwyd Y Cyng. A Mrs Lynford Thomas ar 60 blynedd o briodas yn ddiweddar. Estynwyd ein dymuniadau gorau i'r Cyng. Harry Williams sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**

4. **CADARNHAU COFNODION 12/03//2024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Hywel Glyn a derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

   Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Jones a darllenwyd yn ei habsenoldeb gan y Cadeirydd.

   i. Hewl Cribyn – Troedyrhiw. Bydd yr hewl ar gau rhwng 17/6/24 a 1/7/24 i godi'r peiriant o'r cae. Bydd Adran y Priffyrdd yn gwneud archwiliad o'r hewl.
   ii. Hafod Brynog. Y Cyng. Jones wedi derbyn ymateb gan Adran y Priffyrdd yn nodi mai mater rhwng cymdogion yw hwn ond ei bod yn bwriadu hala Swyddog o'r sir i wneud archwiliad i sicrhau nad yw lleoliad y potiau'n anghyfreithlon.
   iii. Ar ran Mr. Terry Smith o Gribyn, mae cais wedi ei wneud i'r Sir am arwyddion rhybudd i gerddwyr ger ardal yr ysgol.
   iv. Ymgynghoriad Cyhoeddus Ffiniau Ceredigion. Tynwyd sylw at yr ymgynghoriad sydd yn cau ar 13eg o Fai. Yn dilyn trafodaeth am yr argymhelliad i uno Llanfihangel Ystrad a Llannwen**, penderfynwyd** ysgrifennu at y Comisiwn yn gofyn am y rhesymau dros yr argymhelliad hwn.

## 7. CYLLID

- **i.** Tâl y Clerc mis Mawrth £213.57
- **ii.** Aelodaeth Un Llais Cymru £287.00
- **iii.** Un Llais Cymru – cost hyfforddiant £38.00
- **iv.** Zurich Insurance £705.35
- **v.** Cyflwynwyd y gyllideb i'w ystyried a **phenderfynwyd trosgwlyddo ££85** o Contingency i Yswiriant i nodi'r codiad yn y pris ac i roi ystyriaeth i'r codiad pan fyddwn yn trafod cyllideb 2025-26

## 8. ADRODDIAD HYFFORDDIANT 13/3/24

Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Un Llais Cymru. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cyng. Hywel Ifans a nododd yr hyn sy'n ofynnol i'r cyngor i wneud i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol 2013 sef (1) cyhoeddi agendau a chofnodion cyfarfodydd ar y wefan a (2) cyhoeddi adroddiad amgylcheddol bob 3 blynedd. Yn dilyn trafodaeth drylwyr am pam a sut ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â'r cyhoedd a nifer o opsiynau gweithredu hynny, **penderfynwyd** creu map o'r etholaeth gyda lluniau a manylion y cynghorwyr perthnasol i'w gyhoeddi ar y wefan, ei arddangos yn y bocsus gwybodaeth cymunedol ac mewn digwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd i'r Cyng. Melinda Williams am gytuno i ymgymryd â'r gwaith.

**9. CYNLLUNIO –** dim materion cynllunio i'w trafod

**10. CINIO'R CADEIRYDD - Penderfynwyd** ar Nos Wener, 24ain o Fai yn y Swan, Llannon.

## 11. GOHEBIAETH

a. Derbyniwyd a darllenwyd cerdyn o ddiolch gan Eisteddfod Dihewyd am y rhodd o £125.00
b. Derbyniwyd neges gan Nia Jones o Bont Creuddyn yn cadarnhau bod y pentre wedi cytuno ar flodau'r maes ar gyfer bocs blodau'r pentre. Gofynnodd hefyd ar i'r Cyngor Cymuned roi ystyriaeth i farn busnesau lleol mewn unrhyw drafodaethau parthed hewl Cribyn i Droedyrhiw (5. 12 v. Mawrth).

## 12. UNRHYW FATER ARALL

a) Ar gais y Cyng. Lyn Williams, **penderfynwyd** cysylltu â'r Sir unwaith eto am ffosydd Croesffordd Penlangroes ac arwyddion Cribyn.
b) Tynwyd sylw at dwll yn yr hewl yn Ffynnonoer. **Penderfynwyd** cysylltu â'r Sir.
c) **Gorsaf Bleidleisio Cribyn**. Ar gais y Cyng. Lyn Williams, **penderfynwyd** cysylltu â'r Sir i gael esboniad am pam nad yw Ysgol Cribyn yn cael ei defnyddio fel Gorsaf Bleidleisio ar gyfer etholiadau Comisiynydd yr Heddlu.

**13.DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF a'r CYFARFOD CYFFREDINOL**

14eg Mai, 2024 yn Neuadd Felinfach